**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 21ain Tachwedd 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyng S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Cyng J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); A Jones (Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, C Hanks a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Roberts (Pennaeth TGCh); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); A Morris a J Evans (Swyddfa Archwilio Cymru); L Bryan (Adran Cyfleusterau).

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Cyng G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEDI 2011

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (MIRG) – dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau ei fod wedi ysgrifennu at Bennaeth Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau gan fynegi pryder yr Awdurdod ynglŷn â thynnu allan o ddarpariaeth y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr. Derbyniwyd ymateb gan Gyfarwyddwr yr Asiantaeth yn dweud bod y llythyr wedi ei nodi.

4 Y CYNNYDD TUAG AT YR ARBEDION YN Y GYLLIDEB 2011-2014

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhan o'r mecanwaith adrodd rheolaidd ynglŷn â'r cynnydd tuag at gael yr arbedion angenrheidiol, sef £2.4 miliwn dros dair blynedd.

4.2 Roedd yr Awdurdod o fewn y nod o arbed yr £800,000 y cytunwyd arno yn y flwyddyn gyntaf. Roedd yr Aelodau wedi derbyn gwybodaeth am yr adolygiad o ofal swyddogion a'r ailstrwythuriad a'i dilynodd, ac roedd hynny wedi arwain at £450,000 o arbediad. Cafwyd arbedion eraill trwy leihau cyllideb diogelwch cymunedol, cael gwared ar linellau dewisol yn y gyllideb, llai o fynd i gynadleddau, newid y ffordd o ddysgu yn yr ochr anweithredol, peidio ag ariannu digwyddiad blynyddol Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc, a chyfuno'r Seremoni Gwasanaeth Hir a'r Seremoni Wobrwyo.

4.3 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod gwneud y gyllideb diogelwch cymunedol £50,000 yn llai wedi achosi oedi wrth drosglwyddo swmp gwaith yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref o'r diffoddwyr tân i ymarferwyr arbenigol. O ganlyniad, disgwylid y byddai cyrraedd y targed o 30,000 o Archwiliadau yn anos nag yn y blynyddoedd a fu.

4.4 Llongyfarchwyd y swyddogion gan Cyng. M Thomas am arbed mwy na'r £800,000 y cytunwyd arno yn y flwyddyn gyntaf.

4.5 Hefyd, rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybodaeth am drafodaethau swyddogion gyda'r cyrff cynrychioliadol ynglŷn â'r ffordd yr oedd diffoddwyr tân yn cael eu rhoi ar gylchrestrau dyletswydd. Roedd pedwar cyfarfod wedi cael eu cynnal hyd yn hyn, ac roedd y tîm wedi ymweld â gwahanol Wasanaethau Tân ac Achub ym Mhrydain er mwyn ymchwilio i'r opsiynau o ran cylchrestrau, gyda'r bwriad o ddyfeisio system gylchrestr benodol ar gyfer Gogledd Cymru a fyddai, lle bo angen, hefyd yn ateb anghenion a phryderon y diffoddwyr tân. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai'r Aelodau'n derbyn y diweddaraf yn rheolaidd.

4.6 Roedd y Cyng. L W Davies yn falch fod trafodaethau manwl gydag Undeb yr FBU yn cael eu cynnal, a cheisiodd sicrwydd y byddai'r meini prawf ar gyfer asesu gweithwyr a allai golli eu swyddi yn dod gerbron y Panel Gweithredol cyn eu cwblhau.

4.7 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân ymdrin â phryderon y Cyng. Davies, a rhoi sicrwydd i'r Aelodau y byddai unrhyw gynigion yn ymwneud â'r newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Fodd bynnag, roedd y Prif Swyddog Tân yn awyddus i atgoffa'r Aelodau fod y swyddogion yn dal yn obeithiol y gellid cael y newidiadau heb golli swyddi, ond ei bod yn ofyniad cyfreithiol i gynnal ymgynghoriad ynglŷn â dileu swyddi cyn gynted ag y gwneid cynnig swyddogol.

4.8 **PENDERFYNWYD nodi'r**

**(i) cynnydd tuag at gael yr arbedion ariannol angenrheidiol yn y flwyddyn gyfredol; a'r**

**(ii) trafodaethau cadarnhaol sy'n mynd ymlaen rhwng uwch reolwyr y Gwasanaeth ac Undeb yr FBU ynglŷn â gweithredu ffyrdd newydd o weithio.**

5 YR ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU GWAITH GWEINYDDOL

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan PSTC Hanks, ac roedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod adolygiad o drefniadau gwaith presennol staff gweinyddol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n cael ei gynnal.

5.2 Yn dilyn cyflwyno'r strwythur swyddogion newydd ar 1af Ebrill 2011, ystyriwyd bod yn rhaid i bob swyddogaeth o fewn y Gwasanaeth gael y lefel gywir o gefnogaeth weinyddol, a chynhaliwyd adolygiad o'r gwahanol rolau gweinyddol sydd o fewn y Gwasanaeth. Bydd gwerthusiad o'r adolygiad yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Tachwedd 2011 er mwyn penderfynu pa mor effeithiol yw'r trefniadau newydd sydd wedi cael eu treialu, ynghyd â'r cynigion ar gyfer y dyfodol.

5.3 Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion am gynnal yr adolygiad, ac roedd yn teimlo bod unrhyw beth y gellid ei wneud i ysgafnhau baich Rheolwyr y System Dyletswydd yn ôl y Galw yn rhywbeth i'w groesawu.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddaf am yr adolygiad o'r trefniadau gwaith gweinyddol.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad monitro perfformiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân am y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2011 a 30ain Medi 2011. Da oedd nodi y bu gwelliant ymhob maes perfformiad o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd.

6.2 Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- y 9% o ostyngiad yn y tanau eilaidd, a gellid priodoli hyn i'r gwaith yr oedd swyddogion wedi ei wneud gyda ffermwyr a thirfeddianwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth am danau glaswellt a thanau awyr agored.
- yn dilyn cwest crwner yn ddiweddar, cadarnhawyd bod y sawl oedd yn y tân mewn cartref yn Wrecsam wedi marw cyn i'r tân gychwyn, ac felly dylid cofnodi mai un farwolaeth a fu oherwydd tân damweiniol mewn cartrefi yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yn rhaid i'r Gwasanaeth barhau i ganolbwyntio ar ostwng nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.
- bu 56% o ostyngiad yn nifer yr anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, ac mae hynny i'w briodoli o bosib i ddosbarthu gwybodaeth diogelwch tân ynglŷn â sut i fod yn ddiogel os bydd tân.
- roedd larwm mwg wedi canu yn 62% o'r cartrefi lle cafwyd tân. Nodwyd mai'r prif reswm nad oedd larwm wedi canu oedd nad oedd y tân yn ddigon agos at y larwm.

6.3 Rodd y Cyng. M Ll Davies yn falch fod adroddiadau ar y cyfryngau yn ddiweddar wedi dweud bod mwy o bobl wedi cael rhybudd cynnar o dân yn eu cartrefi oherwydd larymau mwg. Fodd bynnag, roedd erthygl a ddarllenodd yn ddiweddar wedi dweud bod hylif fflamadwy wedi cael ei bostio trwy flwch llythyrau i gynnau tân, a gofynnodd a oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod offer arbenigol gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol y gellid ei osod mewn eiddo sy'n hysbys am fod yn rhai â risg uchel.

6.4 Soniodd y Prif Swyddog Tân am nifer isel y galwadau maleisus yr aethpwyd atynt, gan briodoli hyn i'r ffaith fod staff yr Ystafell Reoli yn cael hyfforddiant da ar gyfer herio galwadau amheus. Cafwyd beirniadaeth pan roedd y Prif Swyddog Tân wedi cyflwyno'r polisi herio am y tro cyntaf, ac roedd yn ddiolchgar i'r Awdurdod am gefnogi ei awgrym ar y pryd.

6.5 Gofynnodd y Cyng. T Roberts a oedd modd adnabod pa rai o'r cartrefi oedd â larwm mwg heb ganu a oedd yn gartrefi cymdeithasol, a pha rai oedd â pherchennog preifat, oherwydd dylai fod larymau mwg trydanol yn y cartrefi cymdeithasol, a dylai'r rheini ganu bob amser.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth am fonitro perfformiad ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn.**

7 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR NEWID DYDDIAD CYHOEDDI CYNLLUNIAU GWELLA BLYNYDDOL AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi crynodeb ar gyfer yr Aelodau o gynnwys dogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â newid dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella ATAau; a chynnig ymateb i'w gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 28 Tachwedd 2011.

7.2 Roedd yr ymateb drafft, a oedd yn ynghlwm wrth yr adroddiad, yn cefnogi'r newid arfaethedig i ddyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella, ac roedd yn pwysleisio'r angen o'r herwydd i adolygu'n fuan y dogfennau cysylltiedig.

7.3 **PENDERFYNWYD cytuno ar ymateb i'w gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 28ain Tachwedd 2011.**

8 ADRODDIADAU ADBORTH GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

8.1 Yn ddiweddar, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal dau adolygiad, a chyflwynwyd yr adborth i'r Aelodau er gwybodaeth. Roedd yr adolygiadau ar Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth.

8.2 Cyflwynodd Alan Morris o Swyddfa Archwilio Cymru yr adborth ar yr adolygiad o Dechnoleg. Dywedodd mai adroddiad cadarnhaol ydoedd, ond bod angen i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn gallu cynnal y cynnydd.

8.3 Nodwyd bod y tri Awdurdod Tân ac Achub wedi cwblhau prosiect ar y cyd yn ddiweddar, a oedd wedi cysoni systemau ystafelloedd rheoli'r tri Gwasanaeth trwy Gymru.

8.4 Cyflwynodd Jeremy Evans yr adborth ar reoli gwybodaeth, Esboniodd ei fod wedi ei gadw ar wahân oddi wrth yr un ar dechnoleg gan fod rheoli gwybodaeth yn dod yn ased ynddo'i hun. Er bod dull yr Awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwella, roedd yn ystyried bod gwendidau a bod angen eglurhad ar swyddogaethau allweddol a rhannau cyfrifoldeb. Aeth yn ei flaen i esbonio fod angen mynd ati mewn ffordd wahanol i drin a diogelu'r gwahanol setiau o ddata sydd gan y Gwasanaeth.

8.5 Gofynnodd yr Aelodau am farn y Prif Swyddog Tân am yr adborth; roedd yn teimlo bod yr Awdurdod yn wastad wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i Swyddfa Archwilio Cymru, ond y tro hwn, roedd y PST yn mynegi siom gan ei fod yn teimlo bod yr Awdurdod wedi cael ei fesur yn erbyn safonau awdurdodau lleol, a bod angen rhoi ystyriaeth i'r maint gan fod lefel yr adnoddau o fewn yr Awdurdod yn gyfyngedig ac yn lleihau.

8.6 I ateb pryderon ynglŷn â'r ffaith nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng awdurdod lleol ac Awdurdod Tân ac Achub, roedd Mr Evans yn credu ei fod wedi ystyried maint y sefydliad. Esboniodd Mr Evans ei fod wedi ysgrifennu'r adroddiad ar gyfer yr ATA ac nid ar gyfer sefydliad mwy megis Awdurdod Lleol. Dywedodd nad oedd wedi nodi'r angen am swyddi ychwanegol, ond roedd wedi awgrymu y gallai diogelwch gwybodaeth gael ei fonitro gan bwyllgor/grŵp llywio sy'n bodoli eisoes. Roedd eisiau i'r Awdurdod gydnabod y cyfrifoldeb oedd ganddo mewn perthynas â gwybodaeth, ac i ystyried y ffordd orau o ddiogelu'r ased pwysig hwn sydd gan y sefydliad.

8.7 Roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu yn seiliedig ar sefyllfa gyfredol yr Awdurdod, nid ar yr hyn y dymunid i'r Awdurdod fod.

8.8 **PENDERFYNWYD nodi'r adborth i'r ddau adolygiad.**

RHAN II

9 TEMPLED GORSAFOEDD TÂN Y SYSTEM DYLETSWYDD YN ÔL Y GALW

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan PSTC Hanks, ac roedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am dempled arfaethedig ar gyfer gorsafoedd tân y system dyletswydd yn ôl y galw yn dyfodol, a'r lle posib ar gyfer yr heddlu. Ystyrid mai dymunol o beth fyddai safoni dyluniad y gorsafoedd y system honno yn y dyfodol, a hynny er mwyn lleihau costau dylunio prosiectau, cwtogi ar y broses ymgynghorol, a gosod paramedrau cyllidebau.

9.2 Rhagwelid y byddai'r gwaith yn cychwyn ar orsaf dân y system dyletswydd yn ôl y galw yn Nefyn yn 2012, ond nid oedd wedi mynd allan ar dendr eto. Ailadroddodd y Prif Swyddog Tân pa mor bwysig yw cynnal y stoc adeiladu presennol er gwaethaf yr hinsawdd economaidd; byddai rai gorsafoedd mewn perygl o droi'n anaddas i'r pwrpas oni bai eu bod yn cael eu hadnewyddu o fewn amserlen resymol.

9.3 **PENDERFYNWYD**
- **(i) nodi'r templed ar gyfer y cynllun arfaethedig, ynghyd â chost cyfalaf gorsaf dân y system dyletswydd yn ôl y galw; a**
- **(ii) chefnogi lleoli Swyddfa'r Heddlu o fewn yr orsaf, yn ddibynnol ar gyfraniad gan Heddlu Gogledd Cymru tuag at gostau cyfalaf a chostau rhedeg blynyddol.**

10 Y RHAGLEN GYFALAF

10.1 Rhoddodd PSTC Hanks y diweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

10.2 Mae prosiect Wrecsam yn parhau, ac mae rhaglen ddiweddaraf y prosiect yn dangos y bydd yr achos busnes llawn, sy'n ymgorffori dyluniad terfynol yr adeilad, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2012, gan ddisgwyl cymeradwyaeth yn Awst 2012. Diolchodd y Cyng. Jeffares i PSTC ACFO a'i dîm am eu holl waith caled yn symud ymlaen gyda phrosiect Wrecsam.

10.3 Mae'r gorsafoedd tân a'r safleoedd hynny sydd angen cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth anabledd a chydraddoldeb yn parhau i gael eu huwchraddio er mwyn cwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol o fewn rheswm. Roedd y gwaith ar nifer o orsafoedd eisoes wedi cael ei gwblhau.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**